# Cymru Iachach – Strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Mae ein hadroddiad blynyddol yn crynhoi'r prif feysydd cynnydd a gyflawnwyd yn yr ail flwyddyn lawn o’r strategaeth.

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Medi 2023

Diweddariad olaf: 30 Ionawr 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adroddiad-blynyddol-strategaeth-gweithlu-22-23 am y fersiwn diweddaraf.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn crynhoi'r prif feysydd cynnydd a gyflawnwyd yn yr ail flwyddyn lawn o’r strategaeth.

Dyma rhai o uchafbwyntiau ein hadroddiad blynyddol.

## Adroddiad blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru 2022 i 2023

Ym mis Hydref 2020, law yn llaw ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AAGIC) fe wnaethom lansio ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i gyd-fynd â gweithredu Cymru Iachach.

2022 i 2023 oedd ein hail flwyddyn lawn yn cyflawni’r strategaeth a bu’n gyfnod heriol o hyd i’r sector. Roeddem bellach mewn cyfnod newydd o’r pandemig lle welsom ymhen amser y cyfyngiadau’n cael eu llacio, ond ar yr un pryd roeddem yn wynebu argyfwng costau byw ac effeithiau Brexit a arweiniodd at broblemau dybryd gyda recriwtio a chadw staff.

Mae’r sector iechyd a’r sector gofal cymdeithasol yn dal i deimlo effeithiau pandemig Covid-19 a bydd yn dal i gael effaith barhaol am flynyddoedd lawer. Mewn ymateb, byddwn yn dal i roi ar waith y gefnogaeth y mae ar y gweithlu a chyflogwyr ei hangen, drwy weithio’n gyflym i weithredu’r ymrwymiadau a gaiff eu datgan yn y strategaeth.

### Cynnydd er gwaetha’r anawsterau

Er gwaethaf heriau sylweddol y tair blynedd diwethaf, rydyn ni wedi llwyddo i wneud cynnydd ac mae angen inni ddathlu hyn a’r gwelliannau a wnaed i’r sector. Ond, mae gofal cymdeithasol yn wynebu heriau mawr yn y gweithlu ac

mae’n anodd denu pobl i mewn i’r sector, recriwtio digon o staff, a chadw’r gweithlu presennol.

## Telerau ac amodau

Wrth wneud gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ar y camau gweithredu diwygiedig ar gyfer strategaeth y gweithlu, yr hyn a glywsom drosodd a drosodd oedd bod angen gwella’r telerau ac amodau. Mae hyn yn cynnwys cyflogau a thelerau ac amodau ehangach, megis trefniadau gweithio hyblyg, polisïau cyson ar gyfer meysydd megis teithio, hyfforddiant, salwch ac absenoldeb mamolaeth.

Dywedodd y bobl y buom yn siarad â nhw eu bod am i statws y sector wella ac iddo gael yr un parch â’r sector iechyd. Mae gofyn cael llais ar y cyd ar bob lefel ar hyn. Mae’n bosibl y bydd angen edrych ar gyflogau a thelerau ac amodau ehangach yn unigol, ond mae angen gweithredu’n gyflym. Mae’r gofyn am roi’r un parch i’r gweithlu iechyd a’r gweithlu gofal cymdeithasol yn gysylltiedig â hyn ac mae gwaith i’w wneud i roi sylw i rai o’r heriau.

## Llesiant y gweithlu

Rhaid inni warchod llesiant a diogelwch y gweithlu a chanolbwyntio mwy ar amrywiaeth. Bydd creu a datblygu dull tosturiol o arwain yn helpu, gan fod hynny’n creu diwylliant cynhwysol ac amrywiol sy’n adlewyrchu ein cymunedau lleol. Mae llesiant staff yn holl bwysig, a dylai pob aelod o’r gymuned gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi.

### Ein themâu a’n gweithredoedd

Mae llinynnau euraidd llesiant, y Gymraeg a chynhwysiant yn rhedeg drwy ein holl themâu a’n holl weithredoedd. Maen nhw’n dal i chwarae rhan hanfodol yn y newid diwylliant y mae arnom ei angen er mwyn darparu gwasanaethau modern a holl bwysig i bobl Cymru.

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r prif feysydd cynnydd a gyflawnwyd yn ystod 2022 i 2023 yn ein rhaglenni gwaith, a hefyd yn ein gwaith mewn partneriaeth ag AaGIC.

Mae’r strategaeth gweithlu yn darparu camau gweithredu ar draws pob gwasanaeth a lleoliad, ond mae’r adroddiad hwn hefyd yn crybwyll yn benodol y gweithgareddau a’r cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithlu rydyn ni wedi’u datblygu ers inni lansio’r strategaeth ym mis Hydref 2020.

Sef:

- Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol
- Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol
- Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol

Fe wnaethon ni’r cynnydd hwn ar yr un pryd ag y dechreuom ystyried y cam nesaf yn y broses o weithredu’r strategaeth, o 2023 ymlaen. Rydyn ni wedi gwneud llawer iawn o ymgysylltu er mwyn llunio camau gweithredu a chynnwys y cam nesaf yn y broses weithredu, a byddwn ni’n cyhoeddi cynllun cyflawni newydd ym mis Hydref 2023. Mae hyn yn cyd-fynd â’n cyfnod adolygu ffurfiol, fel yr addawyd yn y strategaeth wreiddiol.

## Ein cynnydd yn 2022 i 2023

### Gweithlu ymgysylltiol, llawn cymhelliant ac iach

Dangos

**Law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- rannu adnoddau ac arferion da rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i ysgogi gwelliant, gan gyfnewid llefydd ar rwydweithiau iechyd a llesiant
- cyfrannu at lansio'r gwasanaeth cefnogi iechyd meddwl newydd 'Canopi'.

**Fe wnaethom ni:**

- gyhoeddi ein cynllun cydraddoldeb strategol ac rydyn ni'n dal i fonitro ein llwyddiannau yn ei erbyn
- cyfrannu at weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru
- dal i redeg rhwydwaith llesant gofal cymdeithasol ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid
- lansio ein fframwaith iechyd a llesiant, gan ddatgan yr ymrwymiadau a ddisgwyliwn oddi wrth gyflogwyr a'n pobl fel ei gilydd, er mwyn sicrhau profiadau cadarnhaol i weithwyr a gwella ansawdd
- dal i gefnogi'r sector i weithio'n ddwyieithog, gydag adnoddau'n cael eu targedu i gefnogi'r gweithlu presennol ac i'r dyfodol fel rhan o'n hymrwymiad i *Mwy na geiriau*
- dal i gefnogi'r Bartneriaeth Dyfeisgarwch Cymunedol i'w helpu i sefydlu ei hun fel fforwm aml-sector, cenedlaethol i sefydliadau sy'n datblygu ac yn hyrwyddo gweithgareddau a chamau gweithredu lleol i helpu i wella llesiant mewn cymunedau ledled Cymru
- dal i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo cerdyn gweithiwr gofal, gan symud at un ateb digidol a mynd i bartneriaeth â dau ddarparwr disgowntiau blaenllaw i gynyddu'r manteision adwerthu, gan ei gysoni â'r arlwy sydd ar gael yn y GIG
- treialu arolwg o holl weithwyr y sector a ganolbwyntiai ar lesiant
- cryfhau ein cefnogaeth i gyflogwyr drwy gyflwyno gwasanaeth cefnogi cyflogwyr

- cynnal seremoni'r Gwobrau i gydnabod cyfraniad eithriadol timau ac unigolion wrth ddarparu gofal cymdeithasol
- cyflwyno categori yn y Gwobrau i gydnabod gwaith cefnogi gofalwyr di-dâl
- dal i gefnogi darpariaeth amryw o gymunedau, gan gynnwys:
  - addysgwyr ymarfer
  - gweithwyr iechyd meddwlproffesiynol cymeradwy
  - aseswyr budd gorau
  - gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso.
- gweithredu gwasanaeth lles i rai sy'n mynd drwy'r broses addasrwydd i ymarfer.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- ddal i gefnogi grwpiau cefnogi cyfoedion sy'n gwella gwytnwch a llesiant eu gweithlu
- cefnogi llesiant rheolwyr drwy gynnig rhagor o ddigwyddiadau gwytnwch dysgu a datblygu
- dal i gyfrannu at y fforwm dan arweiniad Llywodraeth Cymru, Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, sydd â'r nod o wella amodau gwaith mewn gofal cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- gefnogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i wneud adolygiad o delerau ac amodau gweithwyr cymdeithasol ac awgrymu ffyrdd o safoni'r rhain ar draws Cymru
- cynnal ymchwil i ddeall pam bod pobl yn mynd yn weithwyr asiantaeth
- dal i dynnu sylw at wasanaeth cefnogi gweithwyr gwaith cymdeithasol proffesiynol Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Prydain (BASW).

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- ddal i weithio gyda’r trydydd sector i sicrhau bod ei gyfraniad a chyfraniad gwirfoddolwyr yn cael ei gydnabod ar draws y gweithlu iechyd meddwl. Rydyn ni wedi dechrau dylunio cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu eu cyfraniad.

## Denu a recriwtio

Dangos

**Law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- ddal i gefnogi rhwydwaith ar y cyd i rannu arferion da ac adnoddau er mwyn gwella’r ffigurau recriwtio a chadw ar draws y sectorau
- dal i gefnogi datblygiadau pellach gyda’r adnodd Tregyrfa.

**Fe wnaethom ni:**

- ddatblygu cynlluniau wedi’u targedu ar gyfer proffesiynau sy’n wynebu prinder staff a’r rhai sy’n ei chael yn anodd recriwtio, gyda ffocws ar waith cymdeithasol, gofal cartref, prentisiaethau a’r Gymraeg
- dal i hybu prentisiaethau fel dewis gyrfa hyfyw i ymuno â’r sector ac aros ynddo. Fe wnaethom gefnogi ymgyrch wythnos prentisiaethau Llywodraeth Cymru a chynhaliom ein hymgyrch gofal cymdeithasol un pwrpas ein hunain
- gweithio gyda rhanddeiliaid, fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru, a chyrff dyfarnu, megis City & Guilds a CBAC, er mwyn cryfhau’r cysylltiadau rhwng ceiswyr swyddi a gyrfaoedd mewn gofal cymdeithasol
- dal i roi cymorth ariannol i’r swyddi cysylltwyr gyrfaoedd gofal yn y saith rhanbarth
- dal i ddatblygu’r wefan Gofalwn Cymru, gan ychwanegu adnoddau a chefnogaeth benodol i gyflogwyr
- rhoi rhagor o gefnogaeth i ddatblygu’r porth swyddi, gan wella profiad cyflogwyr a cheiswyr swyddi sy’n ei ddefnyddio
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a defnyddio’r hyn a ddysgom i ddatblygu gwefan newydd i’w lansio ddiwedd hydref 2023

- dal i ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol a’r teledu i hyrwyddo Gofalwn Cymru gan sicrhau ein bod ‘wastad arnodd’ ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- gynnal dau ymgyrch denu wedi’u targedu yn ystod haf a hydref 2022 ar yr un pryd ar draws y teledu, y cyfryngau cymdeithasol a’r radio
- cynnal ymgyrch wedi’i dargedu i gynorthwyo i hybu’r proffesiwn gwaith cymdeithasol fel dewis gyrfaol yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- gynnal ymgyrchoedd yn benodol ar gyfer gofal cartref a phrentisiaethau ar draws y teledu, y cyfryngau cymdeithasol a’r radio.
- dal i gynnal y rhaglen Cyflwyniad i ofal cymdeithasol ar draws Cymru a gwerthuso ei chanlyniadau. Fe wnaethom ni ddatblygu amrywiol raglenni addasedig i fodloni anghenion ceiswyr swyddi, megis cymunedau Affricanaidd a phobl ifanc.

## Modelau gweithio di-dor

Dangos

**Law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- fwrw ymlaen â gwaith ar y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
- cefnogi a chyfrannu at y thema datblygu sefydliadol a gweithlu’r rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol
- cefnogi a chyfrannu at raglenni gwaith ynglŷn â nyrsio mewn gofal cymdeithasol, gan gynnwys data cynllunio’r gweithlu, lleoliadau myfyrwyr nyrsio mewn cartrefi gofal ac ymdrin â chynlluniau imiwneiddio.

**Fe wnaethom ni:**

- gyfrannu at gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anableddau Dysgu, fel rhan o'n rôl ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog
- cynnal gweithdai ar ymarfer ataliol, mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru a Gwelliant Cymru
- dechrau datblygu pecyn cymorth cymhwysedd i gefnogi rôl asesydd y gallwch ymddiried ynddo
- cefnogi ac ymgysylltu â byrddau gweithlu rhanbarthol a byrddau partneriaeth rhanbarthol
- cefnogi cynlluniau polisi'r llywodraeth o safbwynt cynyddu capasiti cymunedol
- dal i gefnogi gwaith y Rhwydwaith Dysgu a Gwella ar gyfer Ail-alluogi er mwyn rhannu ymarfer a phwyso a mesur atebion ar gyfer y gweithlu.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- gyhoeddi cynllun gweithlu ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- gyhoeddi cynllun gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal uniongyrchol
- gweithio gyda phartneriaid i ehangu'r hyfforddiant sydd ar gael i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol mewn cartrefi gofal, drwy gyfrwng rolau hwyluswyr addysg cartrefi gofal
- cytuno ar lwybrau er mwyn i staff cartrefi gofal gael mynediad i hyfforddiant nyrsio
- cytuno ar lwybrau er mwyn i staff cartrefi gofal gael mynediad i gymhwyster gweithwyr cymorth gofal iechyd Lefel 4 i ehangu'r mynediad i hyfforddiant nyrsio.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom:**

- gyhoeddi cynllun gweithlu i gefnogi Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau cynnar o amgylch Gwasanaethau Iechyd

Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS), seicoleg glinigol a gwasanaethau amenedigol
- datblygu cynlluniau gweithredu i gefnogi’r cynllun gweithlu iechyd meddwl
- dal i gefnogi Rhwydwaith Arweinyddion Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy Cymru gyfan i rannu arferion da ac adnoddau i helpu i ddatblygu rolau a gwella.

## Creu gweithlu sy’n ddigidol-barod

Dangos

**Law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- lansio a hyrwyddo modiwlau hyfforddiant digidol ar atal a rheoli heintiau (IPC).

**Fe wnaethom ni:**

- ddal i ddatblygu adnoddau dysgu ar-lein
- dal i ddatblygu platfform dysgu digidol, gan ychwanegu rhagor o adnoddau dysgu a datblygu ar gyfer y sector
- monitro darpariaeth y flaenoriaeth genedlaethol ar gyfer dulliau digidol yn grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) ar gyfer 2021 i 2022
- cyhoeddi ymchwil er mwyn deall y newid at ddatblygu a dysgu digidol yn y sector, gan gynnwys gweld pa gefnogaeth bellach sy’n angenrheidiol
- cyfrannu at ddatblygu modiwlau e-ddysgu i gefnogi’r llwybr Asesiad Cyflogwr at gofrestru.

## Addysg a hyfforddiant rhagorol

Dangos

**Law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- weithio gyda City & Guilds i rannu deallusrwydd a data am ddarparu a chyflawni cymwysterau galwedigaethol.

**Fe wnaethom ni:**

- weinyddu, dyrannu ac adrodd ar ddefnyddio’r grant SCWWDP
- gweithio gyda phartneriaid i wella’r cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg
- arwain ar y gwaith o ddatblygu rhaglen ddysgu i gefnogi’r trefniadau ar gyfer gweithredu’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a’u rhoi mewn grym
- datblygu, ymgynghori a lansio safonau cyson ar gyfer dysgu a hyfforddiant diogelu, a chyhoeddi fframwaith i gefnogi’r gwaith o weithredu’r safonau
- cyhoeddi a chefnogi’r gwaith o weithredu’r fframwaith cymhwysedd ar gyfer gweithwyr cymorth, gwybodaeth a chyngor
- dal i gefnogi’r ddealltwriaeth o ymarfer seiliedig ar gryfderau a’i weithredu ar draws meysydd gofal cymdeithasol
- dal i gynnig y rhaglensgiliau cydweithredol a sgiliau cyfathrebu i awdurdodau lleol
- dal i gefnogi’r gwaith o ddarparu dysgu i helpu’r gweithlu i weithio â gofalwyr di-dâl
- cefnogi gwaith y Rhwydwaith Dysgu a Gwella (LIN) ar gyfer gofalwyr di-dâl.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- ddal i ddarparucyllid drwy ein grant SCWWDP i gefnogi lleoedd a noddir ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol
- cefnogi myfyrwyr-weithwyr cymdeithasol drwy hyfforddiant cymhwyso i gyflogaeth
- dal i ddylanwadu ar werth bwrsariaethau ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol
- cyhoeddi’r adolygiad o’r fframwaith cymhwyso gwaith cymdeithasol a gweithredu’r hyn a argymhellwyd inni
- cefnogi’r Fferyllydd Arweiniol i gwmpasu a datblygu adnodd e-ddysgu ar asesu ac ymdrin â meddyginiaeth yn benodol ar gyfer gwaith cymdeithasol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- hybu cyfleoedd i wneud prentisiaethau a mynd i ddysgu seiliedig ar waith fel dewis gyrfa hyfyw i ymuno â’r sector ac aros ynddo
- dal i ymgysylltu ar draws y sectorau
- cefnogi’r trefniadau ar gyfer gweithredu a chyflawni’r holl gymwysterau galwedigaethol
- cefnogi’r defnydd o’r Fframwaith sefydlu ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol
- dal i gefnogi’r defnydd o’r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan
- cefnogi’r ddarpariaeth barhaus ar gyfer y dyfarniad Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dod i gytundeb â’r Brifysgol Agored i gydnabod bod y llwybr galwedigaethol i ymarferwyr y gwasanaethau cymdeithasol yn cyfateb i flwyddyn gyntaf y cwrs gradd mewn gwaith cymdeithasol
- cyfrannu at adolygiad llai manwl o’r cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol galwedigaethol ar Lefelau 2 i 5
- cynnal adolygiad o ddeddfwriaeth, adnoddau a mapiau Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar draws cymwysterau ymarfer Lefel 2 a 3
- cefnogi’r consortiwm o gyrff dyfarnu i ddatblygu a newid y fethodoleg asesu ar gyfer cymwysterau Lefel 2 a 3 mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- cyfrannu at drafodaethau cynnar am adolygu’r fethodoleg asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol Lefel 4 a 5.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- ddarparu hyfforddiantcenedlaethol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol mewn therapi ymddygiad gwybyddol a therapi byr sy’n canolbwyntio ar atebion.

## Arweinyddiaeth ac olyniaeth

Dangos

**Law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- weithio i ddatblygu ac yn ddiweddarach dyfu’r adnoddau gofal cymdeithasol a’r cyfleoedd dysgu ym mhorth Gwella.

**Fe wnaethom ni:**

- ddal i fuddsoddi mewn datblygu arweinwyr tosturiol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol
- datblygu a threialu rhaglen uwch-arweinyddiaeth traws sector ar draws y sector statudol a’r trydydd sector mewn gofal cymdeithasol
- dal i fuddsoddi mewn rhaglenni arweinyddiaeth penodol ar gyfer penaethiaid gwasanaethau a chyfarwyddwyr statudol gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymwysterau’r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Timau (TMDP) a’r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol (MMDP), gyda rhaglenni datblygu at y pwrpas wedi’u sefydlu ar gyfer cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr cynorthwyol gwasanaethau a’r gweithlu
- datblygu a lansio Rhaglen Dysgu a Datblygu ar gyfer Darpar Reolwyr
- dal i ddarparu rôl arweinyddiaeth i hyrwyddo gweithio’n ddwyieithog
- cefnogi cynllun gweithredu Mwy na geiriau Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar ddatblygu’r gweithlu.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- ddal i fuddsoddi mewn rhaglenni arweinyddiaeth penodol gan gynnwys cymwysterau TMDP ac MMDP.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- ddal i gefnogi rhwydweithiau cydweithwyr ar gyfer rheolwyr cofrestredig gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus er mwyn gwella lles a helpu i warchod eu gwytnwch
- dal i helpu i hybu a gweithredu’r cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5 newydd gan gynnwys y llwybrau prentisiaethau cysylltiedig.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- ddechrau cwmpasu’r opsiynau ar gyfer cyd-raglen ddatblygu ar gyfer rheolwyr tîm iechyd meddwl.

## Cyflenwad a siâp y gweithlu

Dangos

**Law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- gyhoeddi’r cynllun gweithlu ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl.

**Fe wnaethom ni:**

- ddal i gydlynu’r gwaith o gasglu data ar y gweithlu, gan wella’r lefelau a ddychwelir a chywirdeb y data
- dal i newid ein dulliau casglu data i sicrhau y ceir data cadarn, gan gynnwys gwella’r dulliau adrodd data o safbwynt iaith ac ethnigrwydd
- edrych yn agos ar feysydd sy’n peri pryder er mwyn deall yn well broffil y gweithlu, er enghraifft, drwy broffilio nyrsys mewn gofal cymdeithasol a’r defnydd o weithwyr asiantaeth. Defnyddiom y wybodaeth hon i’n helpu i wneud penderfyniadau effeithiol
- dechrau adolygiad cwmpasu o’r dulliau o gynllunio’r gweithlu ar draws y sector a gwneud argymhellion ar gyfer datblygu’r swyddogaeth hon. Cafodd yr adroddiadau ar ein canfyddiadau a’n hargymhellion eu cwblhau ym mis Mai 2023
- dal i gefnogi gwaith Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Ofalwyr
- cyfrannu tystiolaeth i’r Uwchgynhadledd i Ofalwyr.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol, fe wnaethom ni:**

- gyhoeddi’r cynlluniau gweithlu ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol

- cefnogi Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) i ddatblygu memorandwm cydweithrediad at ddefnydd gweithwyr asiantaeth gwasanaethau plant.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom ni:**

- gyhoeddi'r cynlluniau gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal uniongyrchol
- dal i gefnogi datblygiad Fframwaith Cyflog a Chynnydd yFforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.
- dal i helpu'r gweithlu cartrefi gofal i gofrestru mewn pryd ar gyfer y cofrestru gorfodol ym mis Hydref 2022
- cefnogi rhaglen waith Trawsnewid Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y fframwaith ymarfercenedlaethol.

**Ar gyfer y Cynllun gweithlu iechyd meddwl strategol, law yn llaw ag AaGIC, fe wnaethom ni:**

- ddatblygu arolygon ar gyfer Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (AMHPs) a meddygon Adran 12 i helpu gyda'r gwaith o gynllunio'r gweithlu i'r dyfodol
- cwmpasu sut allwn helpu byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i groesawu egwyddorion cynllunio'r gweithlu yn y gweithlu iechyd meddwl
- cefnogi byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar draws Cymru i groesawu rolau newydd o fewn eu timau aml-ddisgyblaethol iechyd meddwl gan gynnwys Cydymaith Meddygol a Chynorthwyydd Clinigol mewn Seicoleg Gymhwysol (CAAP).

## Gwaith o'n blaenau

Nid yw'r meysydd gwaith canlynol wedi dechrau eto. Mae hyn am amrywiol resymau gan gynnwys diffyg capasiti naill ai yng Ngofal Cymdeithasol Cymru neu yn y sector ei hun oherwydd swyddi gwag. Gwelwyd hefyd newidiadau yng

nghyfeiriad polisïau, megis o safbwynt y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.

**Cynllun y gweithlu gwaith cymdeithasol:**

- rhannu arferion da o safbwynt cynnig cefnogaeth gyffredinol i weithwyr cymdeithasol, megis goruchwylio a chefnogi cymheiriaid a sesiynau ôl-drafod
- datblygu rôl llysgenhadon gwaith cymdeithasol
- datblygu ‘Fframwaith galluoedd digidol gwaith cymdeithasol’
- comisiynu elfen sgiliau digidol ddiwygiedig o’r cwricwlwm gwaith cymdeithasol ar gyfer pob rhaglen i is-raddedigion
- lansio ein fframwaith ôl-gymhwyso newydd ar gyfer gwaith cymdeithasol
- cyflwyno fframwaith dysgu a datblygu i gefnogi’r trefniadau ar gyfer gweithredu’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a fydd yn disodli’r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- adolygu ein dull a’n proses ar gyfer cofnodi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- dylunio fframwaith priodweddau arweinyddiaeth
- datblygu rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer darpar gydweithwyr o grwpiau lleiafrifol
- dadansoddi’r porth swyddi a’i ddata i edrych ar y galw a chyflenwad y gweithlu ac yn adolygu ein hagwedd at gynllunio’r gweithlu.

**Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol:**

- datblygu adnoddau ar gyfer rheolwyr er mwyn dechrau asesu i ba raddau y maen nhw’n bodloni’r ymrwymiadau llesiant yn y gwaith sy’n rhan annatod o’r fframwaith iechyd a llesiant
- datblygu adnoddau sy’n dangos yn glir y llwybrau gyrfa sydd ar gael i’r holl staff yn y gweithlu gofal uniongyrchol
- datblygu a chyflwyno rhaglenni dysgu a datblygu er mwyn rhoi’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith

- datblygu adnoddau sy’n benodol i ofal cymdeithasol er mwyn i ragor o bobl feithrin sgiliau hanfodol mewn cyfathrebu a chymhwyso rhifau.
- adolygu sut rydyn ni’n cefnogi pobl gofrestredig i gofnodi eu DPP yn hawdd, ac mewn ffordd hygyrch.

## Casgliadau

Cafodd y pandemig effaith hirbarhaol ar y sector iechyd a’r sector gofal cymdeithasol. Fe wnaeth fwrw goleuni ar yr heriau a fodolai cyn y pandemig a chreodd heriau newydd wrth inni ddal i ymdrechu i ddod allan ar yr ochr draw.

Ein nod yw cyflawni uchelgais y strategaeth 10 mlynedd, ond rydyn ni’n cydnabod bod angen gwneud rhagor i roi cynlluniau tymor hwy ar waith i fodloni’r dyheadau hyn. Byddwn ni’n dal i gefnogi gwaith cydweithredol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, rhwng sefydliadau lleol a chyrff cenedlaethol sy’n gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

Mae’r gwaith a wnaed ers lansio’r strategaeth, sy’n gysylltiedig â’i saith thema allweddol a’i llinynnau euraidd sylfaenol, wedi caniatáu inni godi momentwm y gallwn adeiladu arno i’r dyfodol, yn unol â’n nodau hirdymor. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i fodloni’r heriau a’r cyfleodd y bydd 2023 i 2024 a thu hwnt yn dwyn yn eu sgil.

Rydyn ni wedi ymgynghori ar gam cyflawni’r tair blynedd nesaf, sy’n gysylltiedig ag uchelgeisiau strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff hon ei chyhoeddi ym mis Hydref 2023 a bydd yn darparu set glir o gamau gweithredu er mwyn inni allu dal i gefnogi’r gweithlu ac adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes.

**Gofal Cymdeithasol Cymru, Medi 2023**